

Briff Ymchwil

# Crynodeb o ddeddfwriaeth sylfaenol ac offerynnau statudol cysylltiedig a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad


Awdur: **Steve Boyce**



Dyddiad: **Mehefin 2016**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Steve Boyce**
Dyddiad: **Mehefin 2016**
Rhif Papur: **16-028**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6304**
: **Steve.Boyce@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Crynodeb o ddeddfwriaeth sylfaenol ac offerynnau statudol cysylltiedig a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad

Dogfen gyfeirio yw'r papur hwn sy'n rhestru'r ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad ac offerynnau statudol a wnaed gan ddefnyddio pwerau yn y Deddfau'r Cynulliad. Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn gyfredol ar 12 Mai 2016.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 1

1. Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 ..... 2
2. Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ..... 2
3. Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ..... 3
4. Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ..... 4
5. Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ..... 5
6. Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ..... 6
7. Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ..... 7
8. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ..... 8
9. Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ..... 8
10. Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 ..... 9
11. Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 ..... 10
12. Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 ..... 10
13. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ..... 11
14. Deddf Addysg (Cymru) 2014 ..... 15
15. Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ..... 16
16. Deddf Tai (Cymru) 2014 ..... 17
17. Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ..... 18
18. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ..... 19
19. Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ..... 20
20. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ..... 21
21. Deddf Cymwysterau Cymru 2015 ..... 23
22. Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ..... 24
23. Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ..... 25
24. Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ..... 25
25. Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ..... 26
26. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ..... 27
27. Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ..... 28
28. Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ..... 29

# Deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Pedwerydd Cynulliad

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhestru Deddfau'r Cynulliad ac offerynnau statudol cysylltiedig a wnaed gan y Pedwerydd Cynulliad (2011-16). Mae'n rhestru'r Deddfau yn y drefn y cawsant Gydsyniad Brenhinol, gan amlinellu pa ddarpariaethau o bob Deddf sydd mewn grym ac yn rhestru unrhyw offerynnau statudol a wnaed gan ddefnyddio pwerau o dan bob Deddf, hyd at 12 Mai 2016.

## Cefndir

Ers 2011, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael pwerau deddfu llawn yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth 2011, a arweiniodd at symud i Ran 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Gelwir deddfau sylfaenol a gaiff eu pasio gan y Cynulliad yn Filiau'r Cynulliad (a Deddfau'r Cynulliad unwaith y byddant wedi cael Cydsyniad Brenhinol). Yn y Trydydd Cynulliad (2007-11), galwyd deddfau sylfaenol yn Fesurau. Mae'r rhan fwyaf o'r deddfau sylfaenol hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig.

**Is-ddeddfwriaeth** yw deddfwriaeth a wneir gan berson neu gorff o dan bwerau a roddwyd gan ddeddfwriaeth sylfaenol fel Deddf Senedd y DU neu Ddeddf y Cynulliad. Mae is-ddeddfwriaeth yn atodol i Fesurau'r Cynulliad, Deddfau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y DU. Mae fel arfer ar ffurf Offerynnau Statudol a gallant gynnwys codau ymarfer, adroddiadau, gorchmynion, rheoliadau, rheolau, cynlluniau neu ganllawiau. Mae Offeryn Statudol Cymru yn fath o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ac a wneir o dan awdurdod sydd wedi'i gynnwys mewn naill ai Deddfau Senedd y DU sy'n berthnasol i Gymru neu ym Mesurau a Deddfau'r Cynulliad.

Ers i'r Cynulliad gael pwerau i ddeddfu ym mhob un o'r 21 o bynciau a amlinellir yn Atodlen 7 i ***Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006***, mae cyfanswm o 28 o Ddeddfau'r Cynulliad wedi cael Cydsyniad Brenhinol. O'r rhain, cafodd 25 eu cyflwyno gan Lywodraeth a dwy, sef *Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013* a *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*, eu cyflwyno gan Aelodau'r Cynulliad. Cafodd y Ddeddf arall, *Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012*, ei chyflwyno gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r rhan fwyaf o'r Deddfau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Mae manylion am ddefnyddio'r pwerau hynny wrth wneud offerynnau statudol wedi'u cynnwys isod.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddeddfwriaeth a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad ar **wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.

**Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn gyfredol ar 12 Mai 2016.**

# 1. Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012

**Trosolwg a chychwyn**

Roedd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) yn Fil gan Gomisiwn y Cynulliad a gyflwynwyd gan Rhodri Glyn Thomas AC. Mae ***Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012*** yn gwneud darpariaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn nhrafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wrth gyflawni swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd 2012**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym ar 13 Tachwedd 2012, fel y nodwyd yn Adran 3 (Enw byr a chychwyn).

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn ofynnol bod Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn cael ei baratoi ar gyfer Comisiwn y Cynulliad. Mae'n rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r cynllun.

# 2. Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**Trosolwg a chychwyn**

Nod ***Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012*** yw symleiddio gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau awdurdodau lleol a chyflwyno gweithdrefn arall ar gyfer awdurdodau lleol i'w dilyn wrth wneud rhai is-ddeddfau.

Roedd y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) yn destun

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014/3111*** ar 18 Tachwedd 2014 a daeth i rym ar 19 Tachwedd 2014 – roedd yn diwygio Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Gwnaed ***Rheoliadau Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2014/2717*** ar 9 Tachwedd 2014 a daethant i

**dyfarniad yn y Goruchaf Lys** ym mis Tachwedd 2012.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 29 Tachwedd 2012**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym erbyn 12 Mai 2016 ac eithrio adran 20 (ar gyfer darpariaethau penodol) ac Atodlen 2 (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) paragraff 9(4)-(4)(c).

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Cychwyn Rhif 1) 2014/2121*

*Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2015/1025*

*Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 dccc 2*

rym ar 7 Tachwedd 2014.

## 3. Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*** yn cynnwys darpariaeth i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder, gwella ysgolion, trefniadaeth ysgolion, cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg, cyfarfodydd rhieni blynyddol, cwnsela yn yr ysgol, mentrau brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a thaliadau hyblyg ar gyfer cinio ysgol.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **God Trefniadaeth Ysgolion** o dan adran 38 a 39 o'r Ddeddf. Daeth y Cod i rym ar 1 Hydref 2013.

Gwnaed ***Gorchymyn Cod Trefniadaeth Ysgolion (Dydd Penodedig) (Cymru) 2013/1799*** ar 16 Gorffennaf 2013 a daeth i rym ar 1 Hydref 2013.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013**

Daeth holl rannau o'r Ddeddf i rym erbyn 12 Mai 2016 ac eithrio Atodlen 4 paragraff 8.

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 1) 2013/1000*

*Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2 Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2013/1800*

*Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 3) 2013/3024*

*Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Arbed) 2014/178*

*Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 dccc 1*

Gwnaed **Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Newid Categori) (Cymru) 2015** ar 14 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 1 Medi 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013/3048*** ar 3 Rhagfyr 2013 a daethant i rym ar 31 Rhagfyr 2013.

# 4. Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013*** yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau bwyd weithredu cynllun sgorio hylendid ac yn rhoi dyletswydd ar fusnesau bwyd i arddangos eu sgoriau hylendid bwyd yn eu sefydliad.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013/2903*** gan Weinidogion Cymru 12 Tachwedd 2013 a daethant i rym ar 28 Tachwedd 2013, ac eithrio rheoliad 8 a ddaeth i rym ar 28 Tachwedd 2014.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013**

Mae pob rhan o'r Ddeddf mewn grym.

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (Cychwyn Rhif 1) 2013/2617*

*Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (Cychwyn Rhif 2) 2014/3089*

*Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 dccc. 2*

Gwnaed ***Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016/429*** ar 18 Mawrth 2016 a daethant i rym ar 28 Tachwedd 2016.

## 5. Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**Trosolwg a chychwyn**

Nod ***Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013*** yw cryfhau a gwella atebolrwydd a threfniadau llywodraethu yn ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gan amddiffyn annibyniaeth a gwrthrychedd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym ar 1 Ebrill 2014.

Darpariaethau cychwyn:

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Cychwyn, Diwygiadau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2013/1466*** gan Weinidogion Cymru ar 11 Mehefin 2013.

Daeth ***Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014/77*** i rym ar 1 Ebrill 2014.

*Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Cychwyn, Diwygiadau Canlyniadol, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2013/1466*

*Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 dccc. 3*

Gwnaed ***Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Corff Cyfrifwyr Ewropeaidd Cymeradwy) 2014/890*** ar 1 Ebrill 2014 a daeth i rym ar 23 Ebrill 2014.

## 6. Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013*** yn diwygio trefniadaeth a sefydliadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ('y Comisiwn') ac mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio ***Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011*** mewn cysylltiad â chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a strwythur pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013**

Mae pob rhan o'r Ddeddf mewn grym.

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 1) 2014/380*

*Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 2) 2015/1182*

*Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 dccc. 4*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi eu gwneud eto o dan y Ddeddf ac eithrio Gorchymyn Cychwyn Rhif 1 2014/380 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 2015/1182.

# 7. Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**Trosolwg a chychwyn**

Nod ***Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013*** yw cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu drwy gyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013**

Mae pob rhan o'r Ddeddf mewn grym erbyn 12 Mai 2016 ac eithrio adrannau 14(3)(b) a 15(4)(e).

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) (Cychwyn) 2015/1679*

*Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 dccc. 5*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015/1775*** ar 7 Hydref 2015 a daethant i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015/1760*** ar 7 Hydref 2015 a daethant i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015/1774*** ar 7 Hydref 2015 a daethant i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Gwnaed ***Gorchymyn Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (Darpariaeth Ganlyniadol) 2015/865*** ar 23 Mawrth 2015. Daeth y gorchymyn i rym ynghyd â'r darpariaethau yn Adran 16 o'r Ddeddf ar 1 Rhagfyr 2015.

# 8. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

### Trosolwg a chychwyn

Mae ***Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013*** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a seiclwyr yn barhaus ac i baratoi mapiau yn nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl at y dyfodol iddynt eu defnyddio. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a seiclwyr yn y cyfnod dylunio.

### Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013

Mae pob rhan o'r Ddeddf mewn grym.

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (Cychwyn) 2014/2589*

*Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 dccc. 7*

### Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016

Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer fawr o bwerau i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, dim ond Adran 14 (yn ymwneud â chychwyn) sy'n cael ei weithredu gan offeryn statudol.

# 9. Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

### Trosolwg a chychwyn

Roedd y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) yn Fil Aelod Cynulliad a gyflwynwyd gan Peter Black AC. Mae ***Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013*** yn sefydlu cyfundrefn drwyddedu ar gyfer safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru ac yn gwneud darpariaeth bellach

### Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016

Gwnaed ***Rheoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014/1763*** ar 2 Gorffennaf 2014 a daethant i rym ar 1 Hydref 2014.

mewn cysylltiad â rheoli safleoedd o'r fath a'r cytundebau ar gyfer y cartrefi symudol sydd arnynt.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013**

Mae pob rhan o'r Ddeddf mewn grym.

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2014/11*

*Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 dccc. 6*

Gwnaed ***Rheoliadau Cartrefi Symudol (Ffioedd am Leiniau) (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2014/1760*** ar 2 Gorffennaf 2014 a daethant i rym ar 1 Hydref 2014.

Gwnaed ***Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014/1764*** ar 2 Gorffennaf 2014 a daethant i rym ar 1 Hydref 2014.

Gwnaed ***Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2014/1762*** ar 2 Gorffennaf 2014 a daethant i rym ar 1 Hydref 2014.

## 10. Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

**Trosolwg a chychwyn**

Diben ***Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014*** yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella eu gallu i wneud penderfyniadau, yn ogystal â chaniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi rannu gyda Gweinidogion Cymru ddata sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau myfyrwyr.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 17 Ionawr 2014**

Mae pob rhan o'r Ddeddf mewn grym.

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Ni wnaed unrhyw offerynnau statudol eto o dan y Ddeddf heblaw Gorchymyn Cychwyn 2014/1706.

*Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (Cychwyn) 2014/1706*

*Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 dccc. 1*

## 11. Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014*** yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau ariannol Byrddau Iechyd Lleol.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym 1 Ebrill 2014

Darpariaeth gychwyn:

*Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 dccc. 2*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth.

## 12. Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014*** yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol ymafael mewn ceffyl, cadw ceffyl a'i werthu neu ei waredu fel arall sydd ar dir yn eu hardal heb awdurdod cyfreithiol, neu

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth.

sydd ar dir arall heb ganiatâd perchennog y tir.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym 28 Ionawr 2014.

Darpariaeth gychwyn:
*Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 dccc. 3*

## 13. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*** yn diwygio ac yn integreiddio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- Gwella'r canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr sydd angen cymorth;
- Cydgysylltiad a phartneriaeth awdurdodau cyhoeddus gyda'r bwriad o wella llesiant pobl;
- Cwynion a chyflwyniadau ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol;
- Swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymyrryd wrth i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol; a dibenion cysylltiedig.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed y rheoliadau canlynol o dan y Ddeddf ac, yn y rhan fwyaf o achosion, daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015/1305*** ar 6 Mai 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015/1335*** ar 21 Mai 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015/1357*** ar 4 Mehefin 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015/1358*** ar 4 Mehefin 2015 a daethant i rym ar 1 Hydref 2015.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014**

Roedd y Ddeddf gyfan mewn grym erbyn 6 Ebrill 2016.

**Darpariaethau cychwyn:**

*Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014/2718*

*Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2014/2718*

*Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2016/412*

*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 dccc. 4*

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015/1367*** ar 5 Mehefin 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015/1466*** ar 1 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015/1465*** ar 1 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Anghydfodau ynghylch Preswylfa Arferol, etc.) (Cymru) 2015/1494*** ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015/1495*** ar 8 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector) (Cymru) 2015/1500*** ar 8 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015/1578*** ar 24 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015/1823*** ar 21 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015/1989*** ar 2 Rhagfyr 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016 ac eithrio is-

baragraff (a) o reoliad 19(1) a fydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2018.

Gwnaed ***Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015/1803*** ar 30 Hydref 2015 a daethant i rym ar 25 Tachwedd 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015/1988*** ar 2 Rhagfyr 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016/312*** ar 3 Mawrth 2016 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Gosod Ffi) (Cymru) 2015/1842*** ar 27 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Darparu Gwasanaethau Iechyd) (Cymru) 2015/1919*** ar 18 Tachwedd 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) (Cymru) 2015/1499*** ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015/1844*** ar 27 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015/1815*** ar 21 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015/1841*** ar 27 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015/1840*** ar 27 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015/1843*** ar 27 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015/1818*** ar 21 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015/1820*** ar 21 Hydref 2015 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Gorchymyn Codau Gwasanaethau Cymdeithasol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016/142*** ar 8 Chwefror 2016.

Gwnaed **Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016**/*312* ar 3 Mawrth 2016 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Gorchymyn Cod Gwasanaethau Cymdeithasol (Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016/414*** ar 21 Mawrth 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016/211*** ar 19 Chwefror 2016 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) a Chynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016/216*** ar 19 Chwefror 2016 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2016.

## 14. Deddf Addysg (Cymru) 2014

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Addysg (Cymru) 2014*** yn gwneud darpariaeth ynghylch Cyngor y Gweithlu Addysg (hen Gyngor Addysgu Cyffredin Cymru); ymestyn gofynion cofrestru, cymhwyso a hyfforddi y gweithlu addysg; gwneud darpariaeth ynghylch pennu tymhorau ysgol a diwrnodau gwyliau yng Nghymru; a gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â phenodiadau i Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2014**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym erbyn 12 Mai 2016 ac eithrio adran 23 a rhannau o Atodlen 3 paragraffau 1 a 3.

Darpariaethau cychwyn:

*Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014/1605*

*Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2014/2162*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014/2365*** ar 3 Medi 2014 a daethant i rym ar 29 Medi 2014, ac eithrio rheoliad 2 a ddaethant i rym ar 1 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015/140*** ar 3 Chwefror 2015 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015/195*** ar 10 Chwefror 2015 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015/194*** ar 10 Chwefror 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015/484*** ar 3 Mawrth 2015 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2015

*Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2015/29*

*Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 4) 2015/1688*

*Deddf Addysg (Cymru) 2014 dccc. 5*

Gwnaed ***Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2016/6*** ar 6 Ionawr 2016 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2016

Gwnaed ***Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016/27*** ar 13 Ionawr 2016 a daethant i rym, ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 1(1), ar 1 Chwefror 2016.

# 15.Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014*** yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru; gwneud gorchmynion sy'n pennu telerau ac amodau ar gyfer pobl a gyflogir ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru; a gorfodi telerau ac amodau o'r fath.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2014**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym ar 30 Gorffennaf 2014.

Roedd y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) yn destun **dyfarniad yn y Goruchaf Lys** ym mis Gorffennaf 2014.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016/255*** ar 1 Mawrth 2016 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Gwnaed ***Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015/2001*** ar 8 Rhagfyr 2015 a daeth i rym ar 9 Rhagfyr 2015.

Gwnaed ***Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016/107*** ar 3 Chwefror 2016 a daeth i rym ar 26 Chwefror 2016.

## 16. Deddf Tai (Cymru) 2014

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Tai (Cymru) 2014*** yn darparu ar gyfer rheoleiddio tai rhent preifat; yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â digartrefedd; yn darparu ar gyfer asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiwallu'r anghenion hynny; yn gwneud darpariaeth am safonau tai a ddarperir gan awdurdodau lleol; yn diddymu cymhorthdal y cyfrif refeniw tai; yn caniatáu i gymdeithasau tai cwbl cydweithredol roi tenantiaeth sicr; gwneud darpariaeth ynghylch treth gyngor sy'n daladwy ar gyfer anheddau gwag; ac ynghylch dibenion tai eraill.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014**

Daeth y darpariaethau canlynol i rym erbyn 12 Mai 2016:

Adrannau 1-3, 5-8 (yn rhannol), 10 (yn rhannol), 12 (yn rhannol), 14-27, 29 (yn rhannol), 34 (yn rhannol), 36-39, 40-42 (yn rhannol), 45, 46 (yn rhannol), 47-74, 75 (yn rhannol), 76-128, 130, 131 (yn rhannol), 132 -137, 139 (yn rhannol), 140 - 146. Atodlen 1, Atodlen 2, Atodlen 3.

**Darpariaethau cychwyn:**

*Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 1) 2014/3127*

*Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 2) 2015/380*

*Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Gorchymyn Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Dynodi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015/1026*** ar 25 Mawrth 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gwybodaeth, Cyfnodau a Ffioedd ar gyfer Cofrestru a Thrwyddedu) (Cymru) 2015/1368*** ar 7 Mehefin 2015 a daethant i rym ar 7 Gorffennaf 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015/1366*** ar 2 Mehefin 2015 a daethant i rym ar 3 Mehefin 2015.

Gwnaed ***Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015/1268*** ar 21 Ebrill 2015 a daeth i rym ar 27 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015/1265*** ar 21 Ebrill 2015 a daethant i rym ar 27 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015/1266*** ar 21 Ebrill 2015 a daethant i rym ar 27 Ebrill 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Deddf Tai (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2015/752*** ar 16 Ebrill 2015 a daethant i rym ar 27 Ebrill 2015.

*Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2015/1272*

*Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 4) 2015/1826*

*Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 5) 2015/2046*

*Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 6) 2016/266*

*Deddf Tai (Cymru) 2014 dccc. 7*

Gwnaed ***Gorchymyn Cod Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Dyddiad Penodedig) 2015/1932*** ar 18 Tachwedd 2015.

## 17. Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015*** yn gwneud darpariaethau ynghylch ffioedd myfyrwyr sy'n daladwy i rai sefydliadau sy'n darparu addysg uwch; am ansawdd yr addysg a ddarperir gan ac ar ran y sefydliadau hynny ac ynghylch eu rheolaeth ariannol a dibenion cysylltiedig eraill.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 12 Mawrth 2015**

Daeth y darpariaethau canlynol i rym erbyn 12 Mai 2016:

Adrannau 1- 7, 8 (yn rhannol), 9 (yn rhannol), 10-12, 14, 16-25, 27 (yn rhannol), 28, 29, 37-39 (yn rhannol), 40, 42-49, 51 (yn rhannol), 52 (yn rhannol), 53, 54 (yn rhannol), 55-57, 58 (yn rhannol), 59-60. Atodlen 1, para. 1 (yn rhannol), para. 2, para. 7-27, para. 28 (yn rhannol), para. 29, para. 30 (yn rhannol), para. 31.

**Darpariaethau cychwyn:**

*Gorchymyn Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2015/1327*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015/1498*** ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015/1497*** ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015/1484*** ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015/1496*** ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

*Gorchymyn Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2016/110*

*Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 dccc. 1*

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015/1485*** ar 7 Gorffennaf 2015 a daethant i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016/223*** ar 23 Chwefror 2016 a daethant i rym ar 28 Mawrth 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) (Diwygio) 2016/276*** ar 2 Mawrth 2016 a daethant i rym ar 26 Mawrth 2016.

## 18. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*** yn gwneud darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud pethau er mwyn ceisio sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn adrodd ar weithredoedd o'r fath; i sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i wneud pethau sy'n unol â'r Ddeddf hon; i sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdod lleol; i wneud darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol bod y cyrff hynny yn cynllunio a gweithredu er mwyn ceisio sicrhau llesiant economaidd,

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015/1924*** ar 17 Tachwedd 2015 a daethant i rym ar 23 Tachwedd 2015.

Gwnaed ***Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Buddiannau Cofrestradwy) 2015/1846*** ar 29 Hydref 2015 a daethant i rym ar 23 Tachwedd 2015.

cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015**

Daeth y Ddeddf gyfan i rym ar 6 Ebrill 2016

**Darpariaethau cychwyn:**

*Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn) 2015/1785*

*Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2016/86*

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 dccc. 2*

## 19. Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*** yn gwneud darpariaeth: i wella trefniadau ar gyfer atal trais yn seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; i wella trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr camdriniaeth a thrais o'r fath; i wella'r gefnogaeth i bobl yr effeithir arnynt gan gamdriniaeth a thrais o'r fath; ac i'w gwneud yn ofynnol i benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar drais yn seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Dim ond materion sy'n gysylltiedig â chychwyn o dan Adran 24 o'r Bil a gaiff eu hymarfer gan offeryn statudol.

Mae’r Ddeddf yn darparu nifer fawr o bwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â materion a amlinellwyd uchod sydd wedi’u cynnwys ar wyneb y Bil.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015**

Mae’r Ddeddf gyfan mewn grym.

**Darpariaethau Cychwyn:**

*Gorchymyn Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015/1680*

*Gorchymyn Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2) 2015/2019*

*Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 dccc. 3*

## 20. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*** yn gwneud darpariaethau am gynllunio datblygu cenedlaethol, strategol a lleol yng Nghymru; gwneud darpariaeth ar gyfer rhai ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio a rhai ceisiadau eraill i’w gwneud i Weinidogion Cymru; gwneud darpariaeth arall ynghylch rheoli datblygiad a cheisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio; gwneud darpariaeth am orfodi cynllunio, apeliadau

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn ei gwneud yn ofynnol bod nifer sylweddol o is-ddeddfwriaeth yn cael eu gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd rhaglen o gyflwyno is-ddeddfwriaeth yn debygol o gymryd hyd at 2018 i’w chwblhau.

a rhai trafodion eraill, diwygio *Deddf Tiroedd Comin 2006*; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015**

Roedd y darpariaethau canlynol mewn grym erbyn 12 Mai 2016:

Adrannau 1, 2, 3 (yn rhannol), 4, 6-8 (yn rhannol), 11-15, 16 (yn rhannol), 17-22, 23-27 (yn rhannol), 28-38, 39 (yn rhannol), 40-46, 47 (yn rhannol), 48 (yn rhannol), 49, 50-54 (i gyd yn rhannol), 55-59.

Atodlen 1 para. 1, Schedule 2 para. 4 (yn rhannol), para. 8 (yn rhannol), para. 14 (yn rhannol), para 22-23 (yn rhannol), para. 25 (yn rhannol), para. 30-33 (yn rhannol), Schedule 3, paragraff 1 (yn rhannol), paragraff 2 (yn rhannol), Schedule 4 paragraffau 1- 23 (yn rhannol), Schedule 5 paragraffau 1-14, para 15-16 (i gyd yn rhannol), para 18-19 (i gyd yn rhannol), para 20, para 21 (yn rhannol), para 22, para 23 (yn rhannol), para 24, para 25 (yn rhannol), para 26, Schedule 7.

**Darpariaethau cychwyn:**

*Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015/1736*

*Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015/1987*

*Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2016/52*

*Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 dccc. 4*

Gwnaed ***Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016/56*** ar 27 Ionawr 2016 a daethant i rym ar 1 Mawrth 2016.

Gwnaed ***Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016/53*** ar 27 Ionawr 2016 a daethant i rym ar 1 Mawrth 2016.

# 21. Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Cymwysterau Cymru 2015*** yn gwneud darpariaeth i sefydlu corff newydd o'r enw Cymwysterau Cymru; yn darparu ar gyfer Cymwysterau Cymru i allu cydnabod cyrff sy'n gyfrifol am ddyfarnu rhai cymwysterau yng Nghymru ac i gymeradwyo rhai cymwysterau a ddyfarnwyd yng Nghymru ac i gyflawni rhai swyddogaethau eraill; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 5 Awst 2015**

Mae'r Ddeddf gyfan mewn grym.

**Darpariaethau cychwyn**

*Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015/1591*

*Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015/1687*

*Deddf Cymwysterau Cymru 2015 dccc. 5*

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Gwnaed ***Rheoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016/236*** ar 24 Chwefror 2016 a daethant i rym ar 1 Mai 2016.

# 22. Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**Trosolwg a chychwyn**

Bwriad darpariaethau ***Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015*** yw caniatáu i waith paratoadol penodol fynd rhagddo i roi rhaglen ar waith i uno a diwygio llywodraeth leol ac roeddent yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i ddau neu ragor o Brif Awdurdodau Lleol uno'n wirfoddol erbyn mis Ebrill 2018. Mae'r Ddeddf yn diwygio'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol ym *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* (mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'r arolwg o gynghorwyr ac o ymgeiswyr aflwyddiannus) a *Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013* (mewn perthynas ag adolygiadau etholiadol).

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 25 Tachwedd 2015**

Mae'r Ddeddf gyfan mewn grym.

**Darpariaethau cychwyn**

*Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 dccc. 6* adran 46.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi'u gwneud o dan y Ddeddf eto

## 23. Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*** yn gwneud darpariaeth ynghylch tenantiaethau a thrwyddedau sy'n rhoi hawl i fyw mewn annedd fel cartref, gan gynnwys darpariaeth yn sefydlu dau fath o gontract at ddibenion rhentu cartrefi; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016**

Daeth Adrannau 243-258 o'r Ddeddf i rym ar 18 Ionawr 2016. Nid oedd y darpariaethau eraill mewn grym ar 12 Mai 2016.

**Darpariaethau cychwyn**

*Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 dccc. 1* adran 257(2).

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi'u gwneud o dan y Ddeddf eto

## 24. Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*** yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestru a rheoleiddio personau sy'n darparu gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau teulu preswyl, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoliadau i oedolion, gwasanaethau eiriolaeth a gwasanaethau cymorth yn y

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AC, **ddatganiad** ar 22/1/16 yn nodi'r amserlen ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Nododd y bydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu erbyn mis Ebrill 2019.

cartref; diwygio *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* mewn cysylltiad â rheoleiddio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; ar gyfer ailenwi Cyngor Gofal Cymru fel Gofal Cymdeithasol Cymru; i Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu cyngor a chymorth arall i bersonau sy'n darparu gwasanaethau yn ymwneud â gofal a chymorth; i gofrestru, rheoleiddio a hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016**

Roedd y darpariaethau canlynol mewn grym erbyn 12 Mai 2016: adrannau 185 (yn rhannol), 186-190, Atodlen 3 Paragraffau 59-65.

**Darpariaethau cychwyn**

*Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2016/467*

*Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 dccc. 2,* adran 188.

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi cael eu gwneud o dan y Ddeddf eto ac eithrio Gorchymyn Cychwyn Rhif 1 2016/467.

## 25. Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016*** yn ychwanegu at y systemau presennol ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn gynaliadwy. Yn gryno, mae'r Ddeddf yn: creu mesurau newydd ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig a henebion; gwella'r dulliau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer



**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi'u gwneud o dan y Ddeddf eto

rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; a chyflwyno gwell tryloywder ac atebolrwydd mewn penderfyniadau a gymerir ar yr amgylchedd hanesyddol.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016**

Roedd y darpariaethau canlynol mewn grym erbyn 12 Mai 2016 o dan adran 41: Adrannau 1, 2, 3 (yn rhannol), 5 (yn rhannol), 11 (yn rhannol), 23, 24 (yn rhannol), 28 (yn rhannol), 29 a 41, Atodlen 1 paragraff 1 (yn rhannol), Atodlen 2 paragraff 1 (yn rhannol).

**Darpariaethau cychwyn**

*Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 dccc.4*

## 26. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*** yn gwneud darpariaeth ynghylch amrywiaeth o faterion amgylcheddol gan gynnwys: hyrwyddo'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy; darparu ar gyfer targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; diwygio'r gyfraith ar daliadau am fagiau siopa; darparu ar gyfer casglu gwastraff ar wahân, gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosiaeth a gwahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi; gwneud darpariaeth ynghylch sawl gorchymyn mewn perthynas â physgodfeydd cregyn; gwneud darpariaeth am ffioedd ar gyfer trwyddedau morol; sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol; a gwneud mân newidiadau i'r

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi'u gwneud o dan y Ddeddf eto

gyfraith ynghylch draenio'r tir ac is-ddeddfau a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016**

Roedd y darpariaethau canlynol mewn grym erbyn 12 May 2016: adran 5 (yn rhannol), 82 (yn rhannol), 84 (yn rhannol), 85 (yn rhannol), 87-89, Atodlen 2 paragraff 30 (yn rhannol).

**Darpariaethau cychwyn**

*Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 dccc.3 adran 88.*

## 27. Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

**Trosolwg a chychwyn**

Roedd ***Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*** yn Fil Aelod Cynulliad, a gyflwynwyd gan Kirsty Williams AC. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch lefelau staff nyrsio y GIG. Mae hyn yn cynnwys gosod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i bennu a chynnal lefelau staffio priodol, gan gychwyn gyda wardiau ysbytai acíwt i oedolion.

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016**

Roedd y darpariaethau canlynol mewn grym erbyn 12 May 2016: adrannau 2 and 3.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi'u gwneud o dan y Ddeddf eto

**Darpariaethau cychwyn**

*Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 dccc. 5 adran 2(1)*

## 28. Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**Trosolwg a chychwyn**

Mae ***Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*** yn creu fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), a'i brif waith fydd casglu a rheoli trethi datganoledig;
- rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i ACC (a dyletswyddau a hawliau cyfatebol ar drethdalwyr ac eraill) i'w alluogi i nodi a chasglu swm priodol o drethi datganoledig sy'n ddyledus gan drethdalwyr;
- pwerau ymchwilio a gorfodi sifil cynhwysfawr;
- dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog dan rai amgylchiadau;
- hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau mewnol o rai o benderfyniadau ACC ac i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau o'r fath; a
- chyflwyno pwerau gorfodi troseddol i ACC.

**Offerynnau statudol a wnaed hyd at 12 Mai 2016**

Nid oes unrhyw offerynnau statudol wedi'u gwneud o dan y Ddeddf eto

**Cafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016**

Roedd y darpariaethau canlynol mewn grym erbyn 12 Mai 2016: adrannau 1, 37, 82, 117, 171, 188-195

**Darpariaethau cychwyn**

*Deddf Casglu a Rheoli Treth (Cymru) 2016 dccc. 6, adran 194*